GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Laryngoscopeg/ Microlaryngoscopeg +/- biopsïau

# Cyngor Rhyddhau

**Cyngor Rhyddhau yn dilyn Laryngosgopeg/Microlaryngosgopeg:**
Nod y driniaeth hon yw archwilio'ch corn gwddf pan fyddwch chi'n cysgu dan anesthetig cyffredinol. Mae hyn er mwyn canfod achos eich problem llais a cheisio gwella eich llais os yn bosib.
Mae'r llawdriniaeth yn golygu pasio tiwb gwag drwy'ch ceg i mewn i'ch gwddf. Gellir pasio endosgop drwy'r tiwb gwag hwn neu ficrosgop er mwyn asesu eich corn gwddf yn fanwl.
Os oes angen, gellir anfon samplau o abnormaleddau (biopsïau) o fewn eich corn gwddf i'r labordy ar gyfer asesiad pellach.

**Poen**
Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn profi rhywfaint o ddolur yn y gwddf am yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl y llawdriniaeth. Dylai tawelyddion poen syml fel paracetamol lleddfu’r anghysurdeb. Gan fod y driniaeth yn cael ei berfformio drwy'r geg, efallai y bydd rhywfaint o gleisio/cracio i’ch gwefusau a'ch deintgig. Gallwch roi Vaseline ar unrhyw graciau ar eich gwefusau er mwyn cadw'r ardal yn llaith.

**Diet**
Yfwch digon o ddŵr ac i ddechrau dechreuwch ar ddiet ysgafn e.e. brechdanau.
Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn gallu dychwelyd i ddiet arferol o fewn 48 awr.

**Gorffwys r’r llais**
Bydd eich llawfeddyg yn gallu rhoi cyfarwyddiadau penodol i chi ynglŷn â defnyddio’ch llais yn dilyn y driniaeth. Fel rheol gyffredinol, dylech orffwys eich llais am o leiaf 48 awr. Os oes angen i chi siarad, dylech ddefnyddio'ch llais arferol. Mae sibrwd neu weiddi yn waeth na defnyddio'ch llais arferol.
Os bydd biopsïau a/neu driniaethau eraill ar eich cron gwddf, byddai'n arferol i chi orffwys eich llais am o leiaf 2 wythnos. Mae hyn er mwyn atal anaf rhag digwydd yn y safle lle bu’r llawdriniaeth ac i gynorthwyo iachau.

**Dychwelyd i'r Gwaith**

Bydd eich llawfeddyg yn gallu rhoi cyngor penodol ynglŷn â hyn (bydd yn dibynnu ar ba driniaeth a berfformiwyd). Fel lleiafswm, bydd angen o leiaf 48 awr i ffwrdd o'r gwaith. Bydd llawer o gleifion angen llawer mwy o amser i ffwrdd o'r gwaith (yn enwedig os oes angen cyfnod estynedig o orffwys llais). Gellir cael nodyn doctor ar ôl eich rhyddhau.

**Ysmygu**
Fe'ch cynghorir yn gryf i roi'r gorau i ysmygu gan fod hyn yn achosi cosi poenus i'ch corn gwddf.

**Ôl-driniaeth**
Fe'ch cynghorir cyn eich rhyddhau os oes angen apwyntiad dilynol ai peidio.

**GWYBODAETH RHYDDHAU MEWN ARGYFWNG**

**09:00 i 17:00 Llun-Gwener (ac eithrio gwyliau banc):** Cysylltwch ag ystafell driniaeth Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) ar 01633 234018

**Ar ôl 17:00/dros nos (oedolion)**: Ward C0 on 01633493926.

**Ar ôl 17:00/dros nos (plant):** Ward C1 on 01633 493609.

**Mewn achos brys, ewch i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English"**